## Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion

### Gwybodaeth ychwanegol at OAQ39055, a gyhoeddwyd gan Carwyn Jones, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad, ar 16 Tachwedd 2004

**At Glyn Davies:**

Ysgrifennaf i ymateb i'r pryderon a godasoch gyda Phrif Weinidog Cymru yn ystod y Cyfarfod Llawn ar 9 Tachwedd 2004 ynghylch effaith tyfu cnydau sydd wedi'u haddasu'n enynnol ar yr amgylchedd.

Gallaf eich sicrhau fy mod wedi bod mewn trafodaethau parhaus â'm cydweithwyr yn Lloegr ynghylch parhau â pholisi'r Cynulliad i gyfyngu ar dyfu cnydau GM ac o ganlyniad mae fy swyddogion yn gweithio gyda gweinyddiaethau eraill y DU i ddatblygu mesurau cydfodoli ar gyfer y DU gyfan, a fydd yn ymwneud â materion fel pellteroedd gwahanu.

### Gwybodaeth ychwanegol at y ddadl ar Reoliadau Cynllun y Taliad Sengl ac Amrywiol Gynlluniau Cymorth Uniongyrchol (Apelau) (Cymru) 2004 ar 9 Tachwedd, a gyhoeddwyd gan Carwyn Jones, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad, ar 29 Tachwedd 2004

**At Mick Bates:**

Cyfeiriaf at eich cwestiynau yn y Cyfarfod Llawn ar 9 Tachwedd 2004 mewn perthynas â'r uchod. Roeddech am wybod pam na fu unrhyw ymgynghori â'r diwydiant ynghylch y broses apêl. Ymgynghorwyd yn ffurfiol â'r diwydiant yn 2001 ynghylch proses apêl y system integredig ar gyfer gweinyddu a rheoli. Er na fu unrhyw ymgynghori ffurfiol yng nghyswllt proses apêl cynllun y taliad sengl, ymgynghorwyd â grwpiau rhanddeiliaid ynghylch proses apêl y taliad sengl newydd, ac roedd cynrychiolwyr o'r diwydiant yn aelodau o'r grwpiau hyn.

Gofynasoch pwy sy'n gyfrifol am ffurfio'r panel apêl. Bydd panel apêl cynllun y taliad sengl yn cynnwys y 15 aelod o banel apêl presennol IACS ynghyd ag 16 aelod ychwanegol yr wyf fi wedi'u gwahodd i ymuno â nhw.

Gofynasoch hefyd a fydd y panel yn cynnwys rhywun sy'n gyfarwydd â'r diwydiant ac sy'n gwybod amdano, fel cynrychiolydd undeb amaethyddol. Mae dros 70 y cant o banel apêl presennol IACS yn ffermwyr ac mae'n cynnwys nifer o gynrychiolwyr undebau amaethyddol. Mae un ar bymtheg o aelodau newydd yn awr wedi'u penodi ar y panel, ac mae gan bob un gefndir amaethyddol. At ei gilydd, mae gan 31 y cant o'r aelodau newydd naill ai swydd, neu maent wedi bod â swydd, gydag undeb amaethyddol – Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr neu Undeb Amaethwyr Cymru.

Gofynasoch pwy fydd yn gwrando ar apelau daliadau trawsffiniol. Mae swyddogion wrthi'n trafod y mater hwn ar hyn o bryd.

Os bydd apêl yn llwyddo ac arian ychwanegol yn cael ei ddarparu, roedd y ddogfen, meddech chi, yn nodi y daw'r arian o gyllid Ewropeaidd ond roeddech chi am wybod a yw mewn gwirionedd yn dod o gyllideb y polisi amaethyddol cyffredin neu o ryw gyllid Ewropeaidd arall. Caiff cynllun y taliad sengl ei ariannu'n llwyr gan Ewrop. Caiff uchafswm ariannol ar gyfer y taliad sengl ei bennu ar gyfer pob aelod wladwriaeth/rhanbarth, yn seiliedig ar daliadau PAC rhwng 2000 a 2002. Ni fydd unrhyw arian ychwanegol ar gael ar gyfer apelau llwyddiannus. Bydd yn rhaid gwneud yr holl daliadau sengl o fewn yr uchafswm ariannol a bennwyd ar gyfer pob aelod wladwriaeth neu ranbarth. Os bydd y taliadau dyledus yn uwch

na'r uchafswm ariannol, bydd angen lleihau taliadau i bob ffermwr i gyd-fynd â'r uchafswm ariannol.

**At Helen Mary Jones:**

Cyfeiriaf at eich cwestiynau yn y Cyfarfod Llawn a gynhaliwyd ar 9 Tachwedd 2004 mewn perthynas â'r uchod. Gofynasoch pryd y caiff ffermwyr wybod am eu hawliau taliad sengl. Ym mis Rhagfyr, rydym yn bwriadu cyhoeddi datganiad o nifer amodol yr hawliau a ddyrennir i ffermwyr, ac eithrio'r rhai a gânt, o bosibl, o'r Gronfa Genedlaethol. Ni fydd y datganiad yn cynnwys unrhyw wybodaeth ariannol. Cyhoeddir gwerth yr hawliau amodol gyda ffurflenni IACS 2005 ym mis Mawrth 2005.

Gofynasoch pryd y byddaf yn gwybod beth fydd y taliad cyfartalog cyfrifedig, hynny yw, yr hyn sy'n berthnasol i'r rhai sy'n ceisio hawliau drwy'r gronfa genedlaethol. At ddibenion y gronfa genedlaethol, caiff y swm cyfartalog rhanbarthol ei gyfrifo ar ôl pennu nifer yr hawliau hanesyddol dros yr haf.

Gofynasoch a allwn eich sicrhau na fydd y rhai sy'n teimlo bod angen iddynt apelio yn profi oedi hir cyn iddynt gael eu talu. Ni fydd modd cyfrifo gwerth unrhyw hawliau nes y bydd y rhan fwyaf o'r apelau wedi dod i ben. Mae swyddogion yn monitro'r llwyth gwaith a byddant yn gwneud pob ymdrech i sicrhau y bydd taliadau cynllun y taliad sengl yn cael eu cyfrifo a'u dosbarthu o 1 Rhagfyr 2005 ymlaen.

Gofynasoch pryd y bydd y broses o archwilio ffermydd yn dechrau. Mae gofynion newydd trawsgydymffurfio yn dechrau ar 1 Ionawr 2005. 15 Mai yw'r dyddiad cau ar gyfer ceisiadau cynllun y taliad sengl a bydd yr archwiliadau'n dechrau yn fuan wedi hynny. Bydd archwiliadau eraill yn mynd rhagddynt drwy'r flwyddyn, fodd bynnag, a bydd unrhyw anghysonderau'n effeithio ar y taliad sengl.

Gofynasoch sut y bydd archwiliadau aflwyddiannus yn effeithio ar y taliadau i'r holl ffermwyr. Mae'n rhaid i ffermwyr sy'n cael taliad sengl gydymffurfio â'r gofynion rheoli statudol, sy'n bod eisoes, a'r angen i gadw'r tir mewn cyflwr amaethyddol ac amgylcheddol da. Bydd unrhyw ostyngiad yn nhaliad ffermwr yn dibynnu ar natur, maint, difrifoldeb a pharhad y diffygion. Os mai esgeulustod sydd wedi arwain at y diffygion, ni fydd canran y gostyngiad yn y taliad sengl yn uwch na 5 y cant, ac 1 y cant yn achos ffermwyr sy'n parhau i fethu cydymffurfio. Mewn achosion o fethu cydymffurfio â gofynion rhyngwladol, ni fydd canran y gostyngiad, mewn egwyddor, yn llai nag 20 y cant a gall arwain at eithrio'r fferm yn llwyr, hyd yn oed, am un flwyddyn calendr neu ragor.

Gofynasoch pa drafodaethau yr wyf wedi'u cael â'm cydweithwyr yn San Steffan ar effaith y gwahanol fesurau trawsgydymffurfio sydd yng Nghymru a Lloegr ar y ffermydd hynny sydd â thir o bobtu i'r ffin. Yn ei hanfod, bydd y mesurau trawsgydymffurfio a bennwyd ar gyfer y naill wlad a'r llall yn berthnasol i'r tir sydd wedi'i leoli ynddynt. Bydd swyddogion yn cadarnhau'r trefniadau ar gyfer archwiliadau yn ystod y misoedd nesaf.

**At Brynle Williams:**

Cyfeiriaf at eich cwestiwn yn y Cyfarfod Llawn a gynhaliwyd ar 9 Tachwedd mewn perthynas â'r uchod. Gofynasoch a oes gennyf bryderon difrifol ynghylch y ffordd y mae daliadau trawsffiniol yn cael eu trin o dan gynllun y taliad sengl a beth sy'n cael ei wneud. Fel y gwyddoch nid wyf yn gallu egluro'r union sefyllfa ar hyn o bryd. Fodd bynnag, cyhoeddwyd datganiad i'r wasg ar 16 Tachwedd yn cadarnhau'r ffordd y caiff hawliau eu dosrannu rhwng y ddwy wlad, yn seiliedig ar leoliad y tir. Mae rhai problemau y mae angen

eu datrys ar lefel y DU gyfan ond bydd swyddogion yn ysgrifennu at ffermwyr yn egluro cymaint ag a wyddant ar hyn o bryd ac yn eu gwahodd i gyfarfodydd ddechrau mis Rhagfyr i drafod eu pryderon.